**Rhif: WG32582**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Dyddiad cyhoeddi: 28 Medi 2017
Gweithredu gofynnol: 21 Rhagfyr 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw cael barn ar gynigion i ddatblygu a gwella mynediad Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr ledled Cymru at gymorth, cyngor a gwasanaethau. Mae: Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi ymysg y Cymunedau, gan ddarparu cyfleoedd cyfartal a'u cefnogi i gael gafael yn haws ac yn gynt ar wasanaethau prif ffrwd ac adnoddau. |
| **Sut mae ymateb** | Ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig yw hwn. Mae'r cwestiynau wedi'u crynhoi ar ffurflen Ymatebion i'r Ymgynghoriad yn Atodiad A. Defnyddiwch yr holiadur hwn os gwelwch yn dda i ddarparu'ch adborth. Gellir anfon yr ymatebion drwy e-bost neu yn y post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae modd gweld y ddogfen ddrafft ar wefan Llywodraeth Cymru:<br><br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/galluogi-sipsiwn-roma-a-theithwyr |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Y Tîm Cydraddoldeb<br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br>Llywodraeth Cymru<br>Swyddfa Merthyr Tudful<br>Rhydycar<br>Merthyr Tudful CF48 1UZ<br><br>E-bost: EqualityandProsperityMailbox@gov.wales |

## Cyflwyniad

Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth i Gymru. Rydym yn credu y dylid trin pob unigolyn yn deg, yn enwedig y rheini sydd wedi eu gwthio bellaf i'r cyrion gan systemau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag gallu sicrhau eu hanghenion sylfaenol. Rydym yn gweithio i sicrhau dyfodol tecach a mynediad teg i wasanaethau, gan sicrhau anghenion dynol, ac rydym yn cefnogi cyfleoedd i ffynnu.

Mae hawliau dynol wrth galon popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol ac yn cydymffurfio â saith confensiwn y Cenhedloedd Unedig a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan y DU.

Strategaeth drawslywodraethol yw *Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol* i'n helpu ni a'n partneriaid i sicrhau bod egni ac adnoddau'r sector cyhoeddus cyfan yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol. Mae ffyniant yn fwy na chyfoeth materol yn unig – mae'n ymwneud â sicrhau bod gan bob un ohonom ansawdd bywyd da, a'n bod yn byw mewn cymunedau cryf a diogel. Mae'r strategaeth genedlaethol yn pennu amcanion y llywodraeth hon ac yn darparu eglurder ar gyfer ein partneriaid ynglŷn â'r newidiadau rydym am eu gwneud yng Nghymru a sut rydym am i'r llywodraeth a'n partneriaid gyfrannu at ddull gweithredu newydd. Bydd hyn yn golygu datblygu ffordd gwbl wahanol o weithio i ni a'n partneriaid. Er bod y llywodraeth yn gymhleth, mae ein hamcan yn syml – helpu a chefnogi pawb i fyw yn iach, a sicrhau ffyniant a boddhad iddynt yn eu bywyd.

Rydym wedi creu nifer o ddogfennau sy'n nodi'r camau mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn eu cymryd mewn perthynas â nifer o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb er mwyn cefnogi pobl sydd â nodweddion penodol sydd wedi'u diogelu. Bydd ein gweithgarwch yn y meysydd hyn yn cefnogi pedair prif thema Ffyniant i bawb – y strategaeth genedlaethol, ynghyd â deuddeg amcan llesiant y Llywodraeth. Mae'r camau gweithredu hefyd wedi'u cysylltu'n agos â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 a gall ein helpu ni i gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol a welir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail inni wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau Cymru decach. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r rheini sydd wedi byw drwy brofiad o anghydraddoldeb ac anfantais, ac rydym yn gwrando ar eu llais. Rydym yn gweithredu ochr yn ochr â nhw yn hytrach na throstynt. Mae hynny'n golygu cynnwys y bobl y bydd ein cynlluniau yn effeithio arnynt ar bob cam datblygu. Mae hon yn enghraifft bwysig o sut rydym yn gweithredu'r Ddeddf.

## Cefndir

Pan gyhoeddwyd 'Teithio at Ddyfodol Gwell': Cynllun Cyflenwi a Fframwaith Gweithredu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym mis Medi 2011, roedd yn gyfle i datblygu perthynas newydd rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned 'sefydlog'. Roedd hefyd yn gyfle i lywodraethau lleol a llywodraethau cenedlaethol ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cymunedau hyn i wella cyfle cyfartal i bawb.

Teithio at Ddyfodol Gwell oedd y strategaeth cynnwys Sipsiwn a Theithwyr gyntaf yn y Deyrnas Unedig ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at wella'r canlyniadau i'r cymunedau hyn ond mae llawer iawn i'w gyflawni eto. Ers 2011, rydym wedi cymryd camau

breision tuag at wella faint o lety sydd ar gael sy’n briodol yn ddiwylliannol, rhywbeth sy’n hanfodol er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i’r cymunedau hyn.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod nifer digonol o safleoedd yn cael eu darparu, tra bydd Grant Cyfalaf Safleoedd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn safleoedd gan Gynghorau. Datblygwyd canllawiau newydd ar Gynllunio a Rheoli Safleoedd yn 2015 i wella safonau ac roedd gweithredu Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi diogelwch deiliadaeth i’r trigolion. Yn dilyn cyfnod o 17 mlynedd pan na ddarparwyd dim safleoedd gan awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn 53 o leiniau newydd ar safleoedd ers 2014. Yn ogystal â gwneud gwelliannau i lety, rydym wedi gwneud cynnydd tuag at wella cyrhaeddiad addysgol a gweithio gyda byrddau iechyd i ddeall anghenion iechyd eu cymuned leol. Serch hynny, mae cyfraddau presenoldeb a chyrhaeddiad ym maes addysg yn dal yn is nag ar gyfer grwpiau eraill, mae’r canlyniadau iechyd yn salach, mae diweithdra’n uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol ac mae gwahaniaethu’n dal i ddigwydd yn rheolaidd. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd tuag at sicrhau cydraddoldeb i'r grwpiau hyn.

Ers cyhoeddi Teithio at Ddyfodol Gwell rydym hefyd wedi ymgynghori ar yr angen am gefnogaeth i'r gymuned Roma mudol. Yn sgil yr ymgynghoriad hwnnw, mae angen i ni yn awr ystyried anghenion y Roma mudol hefyd wrth ddatblygu ein polisïau. Er bod pob un o’r cymunedau hyn yn wahanol iawn, maent yn aml yn wynebu anawsterau tebyg wrth geisio cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus ac yn profi canlyniadau gwael tebyg. Bydd cynnwys y gymuned Roma yn sicrhau na fydd y gymuned hon yn cael ei gadael ar ôl ond nid yw’n awgrymu y dylid ymgysylltu â phob cymuned yn yr un ffordd. Bydd gwahaniaethau ieithyddol, diwylliannol a daearyddol yn aml yn golygu y bydd y gefnogaeth y mae pob cymuned ei hangen yn amrywio.

Mae'r fersiwn newydd hon yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi’i wneud ers 2011 ym meysydd llety, addysg, iechyd a chyfranogiad cymunedol. Mae hefyd yn cyflwyno ymrwymiadau ychwanegol sy’n ymwneud â chyflogaeth a hyfforddiant, yn ogystal ag adeiladu pontydd gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae’r wyth amcan yn y Cynllun Cyflenwi newydd yngysylltu â Chynllun Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol, Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bwriadwn weithio â'r holl bartneriaid i ganfod unrhyw newidiadau yr hoffent eu gweld ac y gellir eu cynnwys yn y cynllun. Byddwn yn ymgysylltu’n helaeth â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a sefydliadau eraill i sicrhau bod y Cynllun Cyflenwi newydd yn addas i'r diben.

## GALLUOGI SIPSIWN, ROMA A THEITHWYR

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan 1<br><br>Gwella cynhwysiant cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy leihau tensiwn cymdeithasol a’r rhwystrau sy’n eu hatal rhag cyfrannu at wasanaethau</th></tr>
<tr><td>Camau gweithredu</td><td>Sefydliad</td><td>Cysylltiad ag Amcanion</td></tr>
<tr><td>1. Bydd Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn cael eu hariannu i ddarparu cymorth cydlyniant mewn perthynas â safleoedd sydd yn yr arfaeth neu sydd wedi’u cymeradwyo ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Ariannu’r Cydgysylltwyr Cydlyniant tan fis Mawrth 2018 o leiaf (adolygir y cyllid yn ystod haf 2019);<br>- Monitro tensiwn cymunedol wrth i ddatblygiadau gael eu cynnig mewn perthynas â safleoedd;<br>- Ysgrifennu at Aelodau Etholedig lleol ym mis Gorffennaf 2017 i’w hatgoffa am ddyletswyddau Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cydraddoldeb 2010;<br>- Rhoi cymorth i wella’u hymwybyddiaeth o’r cymunedau hyn drwy ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i Aelodau Etholedig lleol, lle y bo’n briodol.</td><td>Llywodraeth Cymru -<br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant</td><td>Amcan I Ffyniant i Bawb (Amcan FfiB) 10<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 6</td></tr>
<tr><td>2. Bydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu cefnogi i roi gwybod am Droseddau Casineb drwy ‘Wasanaeth Cymorth i ddelio â Throseddau Casineb ar gyfer Cymru gyfan’ a ‘Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen’ a ariennir gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Ariannu Gwasanaeth Cymorth Cymru Gyfan ar gyfer Troseddau Casineb a Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen tan fis Mawrth 2020;<br>- Sicrhau y bydd Teithio Ymlaen yn cael ei sefydlu fel canolfan adrodd trydydd parti</td><td>Llywodraeth Cymru -<br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant</td><td>Amcan FfiB 10<br><br>Amcan CCS 4</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| yng nghyswllt Troseddau Casineb erbyn haf 2017;<br>- Sicrhau y bydd Teithio Ymlaen yn cynnal 10 sesiwn ymwybyddiaeth o droseddau casineb dan arweiniad y gymuned a'r rhain i'w cynnal erbyn mis Mawrth 2018. | | |
| **3. Cefnogi cyfathrebu gwell rhwng Sipsiwn, Roma a Theithwyr (gan gynnwys plant a phobl ifanc) a darparwyr gwasanaethau neu'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Datblygu canllawiau 'Ymgynghori â chymunedau', i'w cyhoeddi yn 2018;<br>- Ymchwilio i effeithiolrwydd eiriolwyr cymheiriaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr i helpu i wella'r gwaith o rannu gwybodaeth rhwng cymunedau. | Llywodraeth Cymru -<br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcan FfiB 10<br><br>Amcan CCS 12 |
| **4. Meithrin perthynas dda rhwng Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymdeithas ehangach.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda'r cyfryngau i gael adroddiadau mwy cytbwys am Sipsiwn, Roma a Theithwyr;<br>- Sicrhau y bydd y gwasanaeth Teithio Ymlaen yn gweithio gydag aelodau'r cymunedau i hyfforddi aelodau'r cymunedau i fod yn llefarwyr ar y cyfryngau yn ystod 2017/18;<br>- Sicrhau y bydd y gwasanaeth Teithio Ymlaen yn datblygu gweithgareddau a chyfathrebu rhwng cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymuned ehangach rhwng 2018 a 2020. | Llywodraeth Cymru -<br><br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Teithio Ymlaen | Amcan FfiB 10<br><br>Amcan CCS 6 |
| **5. Sicrhau bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael gwybod am y gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac yn gallu cael mynediad atynt.** | Llywodraeth Cymru - Is-adran Plant a Theuluoedd | Amcan llesiant 7<br><br>Amcan CCS 7 |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r teuluoedd hyn i sicrhau bod modd darparu cymorth lle mae ei angen ac mewn ffyrdd sy'n briodol yn ddiwylliannol. Bydd y mater hwn o hyn ymlaen yn rhan o agenda'r cyfarfodydd rheoli cyfrifon chwemisol gydag Awdurdodau Lleol. | | Ffyniant i Bawb - Maes Blaenoriaeth - Blynyddoedd Cynnar |

| **Amcan 2**<br><br>**Sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn gallu cael gafael ar lety o ansawdd da sy'n briodol yn ddiwylliannol** | | |
|---|---|---|
| **Camau gweithredu** | **Sefydliad** | **Cysylltiad ag Amcanion** |
| **1. Sicrhau bod nifer digonol o leiniau yn cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion sydd wedi'u pennu ledled Cymru.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Craffu ar Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau eu bod yn gadarn;<br>- Monitro awdurdodau lleol yn flynyddol i wneud yn siŵr bod digon o leiniau'n cael eu darparu;<br>- Sicrhau bod y broses ar gyfer asesu angen o fewn y canllawiau 'Cynnal Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr' yn cael ei gwella'n barhaus. Y canllawiau i'w hadolygu yn 2018. | Llywodraeth Cymru - Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcan Ffyniant i Bawb (Amcan FfiBt) 6<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 1 |
| **2. Darparu arian Grant Cyfalaf Safleoedd digonol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu creu'r nifer gofynnol o leiniau Sipsiwn a Theithwyr wedi'u hawdurdodi yn eu hardal.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Adolygu anghenion ariannu awdurdodau lleol yn flynyddol ac argaeledd y Grant | Llywodraeth Cymru - Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Is-adran Stadau | Amcan FfiB 6<br><br>Amcan CCS 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfalaf Safleoedd - £26.4m ar gael tan 2021;<br>- Ystyried safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wrth ddrafftio canllawiau ar gyfer pennu a gwaredu asedau dros ben Llywodraeth Cymru. Canllawiau i'w cyhoeddi yn ystod haf 2017. | | |
| **3. Gwella safon safleoedd presennol awdurdodau lleol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddylunio a Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Parhau i ystyried ceisiadau am adnewyddu safleoedd presennol er mwyn bodloni'r canllawiau Dylunio Safleoedd;<br>- Sicrhau bod y canllawiau yn addas i'r diben drwy adolygu'r canllawiau presennol erbyn 2020;<br>- Trefnu o leiaf ddau gyfarfod bob blwyddyn o'r Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Cymru er mwyn gallu rhannu arferion da yng nghyswllt dylunio a rheoli safleoedd. | Llywodraeth Cymru - Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Is-adran Stadau | Amcan FfiB 6<br><br>Amcan CCS 7 |
| **4. Adolygu ymwybyddiaeth o Dribiwnlysoedd Eiddo Preswyl, a'u hygyrchedd, ar gyfer trigolion safleoedd Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Comisiynu gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen i godi ymwybyddiaeth o system y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn ystod 2017;<br>- Adolygu mynediad i Dribiwnlysoedd Eiddo Preswyl - i'w gynnal yn 2018. | Llywodraeth Cymru - Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Gwasanaeth y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Amcan FfiB 6<br><br>Amcan CCS 2 |

| | | |
|---|---|---|
| **5. Monitro effeithiolrwydd y system gynllunio mewn perthynas â gallu darparu safleoedd priodol.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>- Cyhoeddi Cylchlythyr Cynllunio newydd yn 2017 yng nghyswllt Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn i sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio lleol ganllawiau wedi'u diweddaru am ddarparu safleoedd;<br>- Parhau i fonitro'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac adolygiadau i sicrhau bod darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a llunio polisïau yn cael ei wneud yn unol â chanllawiau a pholisi cynllunio cenedlaethol a gofynion asesiadau awdurdodau lleol o lety sipsiwn a theithwyr<br><br>Dylai awdurdodau cynllunio lleol:<br>- Fonitro safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddarperir drwy'r broses gynllunio fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol eu Cynllun Datblygu Lleol. Dylai'r fframwaith monitro fod yn unol â gofynion awdurdodau lleol ar gyfer safleoedd, fel y nodir yn eu Hasesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr. | Llywodraeth Cymru - y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br><br>Awdurdodau Cynllunio Lleol | Amcan FfiB 11<br><br>Amcan CCS 1 |
| **6. Bydd Sipsiwn a Theithwyr cymwys sy'n byw ar safleoedd wedi'u hawdurdodi yn gallu cael gafael ar gymorth a chyngor am effeithlonrwydd ynni drwy Lywodraeth Cymru.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>- Sicrhau y bydd rheolwyr cynlluniau sydd dan gontract i ddarparu rhaglen newydd Llywodraeth Cymru *Cartrefi Clyd* o 1 Ebrill yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol i hyrwyddo cynlluniau Cartrefi Clyd ymysg y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a darparu adroddiadau am y defnydd o'r cynlluniau hynny;<br>- Ystyried y potensial am brosiect Arbed peilot yn yr hydref (2017) pan wahoddir Awdurdodau Lleol i gyflwyno cynigion am arian Arbed;<br>- Sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd adnoddau'n cael eu hystyried yn gymwys am gyllid o dan y Grant Cyfalaf Safleoedd. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Pobl a'r Amgylchedd<br><br>Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcan FfiB 3; 5<br><br>Amcan CCS 7 |

| Amcan 3<br><br>Lleihau digartrefedd a nifer y gwersylloedd diawdurdod, a'u heffaith | | |
|---|---|---|
| **Camau gweithredu** | **Sefydliad** | **Cysylltiad ag amcanion** |
| **1. Sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael eu cefnogi i ddatblygu rhwydwaith o Safleoedd Tramwy ar draws Cymru i hwyluso ffordd o fyw nomadaidd Sipsiwn a Theithwyr.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Ariannu'r safleoedd tramwy cyntaf yng ngogledd a de Cymru erbyn 2020;<br>- Parhau â'r System Cyfrif Carafannau newydd i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cylchoedd dilynol o Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr isefydlu lleoliadau i gwblhau'r rhwydwaith o safleoedd tramwy. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Awdurdodau Lleol | Amcan Ffyniant i Bawb(Amcan FfiB) 10; 11<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 1 |
| **2. Cefnogi ateb cyson, gwaraidd ac effeithiol i wersylla diawdurdod sy'n parchu hawliau Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned ehangach.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu protocolau Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod lleol neu ranbarthol ledled Cymru ac adolygu'r cynnydd tuag at fabwysiadu'r protocolau yn ystod 2017;<br>- Adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru 'Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod' yn ystod 2017/18 i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Heddluoedd | Amcan FfiBt 5; 10<br><br>Amcan CCS 6 |

# GALLUOGI SIPSIWN, ROMA A THEITHWYR

| | | |
|---|---|---|
| **3. Gweithredu'r System Cyfrif Carafannau newydd i sicrhau bod datblygiadau a gwersylloedd diawdurdod yn cael eu cofnodi a'u deall.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Sicrhau bod y system newydd yn gwbl weithredol yn ystod 2017;<br>- Parhau i fonitro'r system i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ei rhoi ar waith yn iawn;<br>- Cyhoeddi data a ryddheir bob chwe mis i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi a dealltwriaeth y cyhoedd o wersylloedd | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Awdurdodau Lleol | Amcan FfiB 6 |

| **Amcan 4**<br><br>**Lleihau'r bwlch yng nghanlyniadau addysgol Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r boblogaeth ehangach.** | | |
|---|---|---|
| **Camau gweithredu** | **Sefydliad** | **Cysylltiad ag amcanion** |
| **1. Gwella hyder disgyblion a rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddatgan eu hethnigrwydd yn yr ysgol i sicrhau bod eu perfformiad yn cael ei ddeall yn well a'r dysgu'n cael ei gefnogi.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Adolygu categorïau ethnigrwydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr o dan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ystod 2017. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cymorth i Ddysgwyr | Amcan Ffyniant i Bawb (Amcan FfiB) 10<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 3 |
| **2. Sicrhau bod diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei adlewyrchu yn amgylchedd yr ysgol.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Annog ysgolion Cymru i ddefnyddio'r adnodd cwricwlaidd 'Teithio Gyda'n Gilydd; y prosiect 'Teithio Ymlaen - Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid'; y pecyn 'Hyrwyddo Cydraddoldeb' ac adnoddau eraill gan Lywodraeth Cymru ac adnoddau a lunnir yn allanol. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cymorth i Ddysgwyr | Amcan FfiB 7<br><br>Amcan CCS 3 |
| **3. Estyn i gynnal adolygiad byr yn 2018-19 a fydd yn canolbwyntio ar y cynnydd ers ei adroddiad yn 2011 ar addysg Sipsiwn a Theithwyr ac ystyried effaith y gefnogaeth a'r gwasanaethau addysg presennol ar ganlyniadau addysg y dysgwyr hyn.** | Estyn | Amcan FfiB7<br><br>Amcan CCS 3 |

## GALLUOGI SIPSIWN, ROMA A THEITHWYR

| | | |
|---|---|---|
| **4. Cefnogi a herio Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol ar y camau y maent yn eu cymryd yn uniongyrchol, a thrwy gefnogaeth a roddir i ysgolion, i wella canlyniadau addysg pob dysgwr.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Defnyddio ein peirianweithiau presennol, gan gynnwys ein rhaglen adolygu a herio, a'n hymgysylltiad â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol;<br>- Gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i sicrhau bod rhannu 'Arferion Da' yn cael ei gynnwys fel eitem drafodaeth sefydlog ar agenda'r Fforwm Addysg Sipsiwn a Theithwyr o 2017 ymlaen. | Llywodraeth Cymru - Addysg Cynllunio Busnes a Llywodraethu<br><br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru | Amcan FfiB 7<br><br>Amcan CCS 3 |
| **5. Archwilio ffyrdd o godi nifer y teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n manteisio ar yr hawl i addysg gynnar dan y Cyfnod Sylfaen.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Ystyried sut y gellir gwella'r cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd adolygiad o'r ddarpariaeth feithrin yn cael ei gynnal yn ystod 2017. | Llywodraeth Cymru - Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg<br><br>Awdurdodau Lleol a'u consortia rhanbarthol | Amcan FfiB 7<br><br>Amcan CCS 7<br><br>Ffyniant i Bawb - Maes Blaenoriaeth - Blynyddoedd Cynnar |
| **6. Cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gyfrannu at raglenni Dechrau'n Deg er mwyn rhoi'r cychwyn gorau i blant.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r teuluoedd hyn i sicrhau y gellir darparu cymorth ar safleoedd yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg cymwys ac mewn ffyrdd sy'n briodol yn ddiwylliannol.<br>- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod y gellir defnyddio arian Allgymorth Dechrau'n Deg i dargedu plant o gymunedau buddiant penodol yn eu hawdurdod lleol, hyd yn oed os ydynt y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn | Llywodraeth Cymru - Rhoi'r Cwricwlwm ar Waith | Amcan FfiB 7<br><br>Amcan CCS 7<br><br>Ffyniant i Bawb - Maes Blaenoriaeth - Blynyddoedd Cynnar |

| | | |
|---|---|---|
| cynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y materion hyn yn awr yn rhan o agenda’r cyfarfodydd rheoli cyfrifon chwemisol gydag Awdurdodau Lleol. | | |
| **7. Hybu Sgiliau Hanfodol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr i wella rhagolygon gwaith, cydlyniant cymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad ysgol plant (Sgiliau Hanfodol, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Llythrennedd Digidol yw’r prif flaenoriaethau o hyd ar gyfer y ddarpariaeth addysg oedolion yng Nghymru).**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda’r Sefydliad Dysgu a Gwaith i ddatblygu canllawiau arfer da ar gyfer ysgolion a Darparwyr Addysg Oedolion ar sut i ymgysylltu â Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn gwella’u mynediad at gyfleoedd dysgu erbyn mis Mawrth 2018;<br>- Parhau i hyrwyddo straeon newyddion da am ddysgwyr llwyddiannus o blith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy adeiladu ar lwyddiant cyn enillwyr Gwobrau Ysbrydoli ym maes Dysgu Oedolion i helpu i ysbrydoli eraill i fanteisio ar gyfleoedd dysgu;<br>- Gweithio gyda’r Sefydliad Dysgu a Gwaith a darparwyr i roi sylw i arferion gorau i helpu eraill i ddatblygu prosesau i gefnogi ymgysylltiad cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod 2017-18;<br>- Datblygu polisi diwygiedig ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru, i’w gyhoeddi yn ystod tymor yr haf 2017;<br>- Gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru yn ystod 2017/18 i ddarparu cymorth i sefydliadau sy’n gallu helpu pobl sydd wedi’u heithrio'n ddigidol i wella’u sgiliau digidol sylfaenol. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Prentisiaethau ac AB<br><br>Is-adran Cymunedau | Amcan FfiB8; 9<br><br>Amcan CCS 3<br><br>Ffyniant i Bawb - Maes Blaenoriaeth - Sgiliau a Chyflogadwyedd |
| **8. Sicrhau yr ymgynghorir â Sipsiwn, Roma a Theithwyr fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a gwireddu’r cwricwlwm newydd.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu a'r cymunedau hyn i sicrhau bod | Llywodraeth Cymru - Is-adran y Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg | Amcan FfiB 7<br><br>Amcan CCS 1; 6 |

| | | |
|---|---|---|
| cyfleoedd i ddiwallu anghenion grwpiau amrywiol, gan gynnwys disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn cael eu nodi wrth ddatblygu a gwireddu'r cwricwlwm. | | |
| **Amcan 5**<br><br>**Lleihau'r bwlch yng nghanlyniadau iechyd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r boblogaeth ehangach.** | | |
| **Camau gweithredu** | **Sefydliad** | **Cysylltiad ag amcanion** |
| **1. Sicrhau bod Asesiadau o Anghenion Iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cynnal erbyn diwedd Rhagfyr 2017 a'r canlyniadau'n cael eu bwydo i'r broses cynllunio gwasanaethau erbyn mis Mawrth 2018.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Monitro gwaith y Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau Asesiadau o Anghenion Iechyd a'u cyflwyno i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod 2017. | Llywodraeth Cymru - yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed<br><br>Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol | Amcan Ffyniant i Bawb (Amcan FfiB) 5<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 1 |
| **2. Ymarferwyr Iechyd i gael eu hyfforddi ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb i sicrhau bod y rhwystrau i ofal iechyd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu lleihau.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Monitro nifer yr ymarferwyr iechyd sydd wedi cael hyfforddiant yn flynyddol o 2018/19. | Llywodraeth Cymru - yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed<br><br>Byrddau ac Ymddiriedolaethau | Amcan FfiB4<br><br>Amcan CCS 1; 6 |

| | | |
|---|---|---|
| | Iechyd Lleol<br><br>Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG | |
| **3. Datblygu system i sicrhau bod adroddiadau'n cael eu darparu'n ganolog ar ganlyniadau iechyd Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn deall anghydraddoldebau'n well a thargedu cefnogaeth.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwybodeg y GIG i gyflwyno categorïau ethnigrwydd Cyfrifiad 2011 (Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig) i systemau gweithredol lleol erbyn mis Mehefin 2018; | Llywodraeth Cymru - yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed<br><br>Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru<br><br>Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol | Amcan FfiB 4<br><br>Amcan CCS 1 |
| **4. Sefydlu peirianweithiau i hyrwyddo'r gwaith o rannu arferion da er mwyn gwella canlyniadau iechyd cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau mynediad at amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd sydd ar gael yn hwylus erbyn mis Mehefin 2018.<br>- | Llywodraeth Cymru - yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed | Amcan FfiB4<br><br>Amcan CCS 1 |
| **5. Sicrhau bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn manteisio ar y Rhaglen Plant Iach Cymru i greu'r amodau lle bydd pob plentyn yn cael y cychwyn gorau** | Llywodraeth Cymru - Is-adran | Amcan FfiB 5 |

| | | |
|---|---|---|
| **posibl mewn bywyd.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau eu bod yn rhoi Rhaglen Plant Iach Cymru ar waith yn llawn erbyn 1 Hydref 2018;<br>- Monitro lefel a'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen ar lefel poblogaeth.<br>- Dadansoddi data chwarterol ar weithrediad y rhaglen ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol a monitro drwy grŵp rhanddeiliaid. | Cyflyrau Iechyd Difrifol<br><br>Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol | Ffyniant i Bawb - Maes Blaenoriaeth - Blynyddoedd Cynnar |

## Amcan 6

## Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddeall eu hawliau ac i gyfrannu'n fwy effeithiol at benderfyniadau lleol a chenedlaethol.

| Camau gweithredu | Sefydliad | Cysylltiad ag amcanion |
|---|---|---|
| **1. Gwella hyder aelodau cymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr i ddatgan eu hethnigrwydd ar gasgliadau data swyddogol i sicrhau bod anghenion yn cael eu deall yn iawn ac yn cael y sylw priodol.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Datblygu ymgyrch wybodaeth yn y gymuned yn ystod 2018 i helpu aelodau'r gymuned i ddeall pwrpas casglu data swyddogol a phwysigrwydd hynny. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcan Ffyniant i Bawb (Amcan FfiB) 10<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 1 |
| **2. Sicrhau bod gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch ac o safon uchel yn cael eu darparu i alluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcan FfiB 10<br><br>Amcan CCS 1; 2; 6 |

| | | |
|---|---|---|
| - Comisiynu’r gwasanaeth Teithio Ymlaen, drwy raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru, i ddarparu gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys gwybodaeth am Hawliau Dynol, Hawliau Plant a Teithio at Ddyfodol Gwell. Bydd gwybodaeth am hawliau yn cael ei chyflwyno i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy'r gwasanaeth Teithio Ymlaen rhwng 2017 a 2020. | | |
| **3. Annog y gwaith o ddatblygu grŵp cyfeirio ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod anghenion, hawliau a chyfraniadau’r cymunedau hyn wrth galon y gwaith o gynllunio a chyflwyno polisïau a gwasanaethau.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Comisiynu gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen i sefydlu'r grŵp hwn o ddiwedd 2017 ymlaen;<br>- Ymrwymo i ymgynghori â'r grŵp bryd bynnag y fo’n bosibl ar gynigion polisi y bydd disgwyl iddynt effeithio’n uniongyrchol ar y cymunedau hyn. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcan FfiB10<br><br>Amcan CCS 1; 2; 6 |

| **Amcan 7**<br><br>**Sicrhau mynediad cyfartal i’r farchnad waith i Sipsiwn, Roma a Theithwyr** | | |
|---|---|---|
| **Camau gweithredu** | **Sefydliad** | **Cysylltiad ag amcanion** |
| **1. Sicrhau bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gallu manteisio ar gynlluniau cyflogaeth Llywodraeth Cymru megis 'Cymunedau am Waith’ PaCE a ‘Twf Swyddi Cymru’ i wella ffyniant i bawb.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Rhoi manylion y cynlluniau cyflogi amrywiol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i aelodau'r cymunedau yn ystod 2017/18;<br>- Sicrhau bod y rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a Cymunedau am Waith yn hyrwyddo’u gwasanaethau'n uniongyrchol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd i ganfod enghreifftiau cadarnhaol o sut mae’r rhaglenni wedi gallu cefnogi'r rheini sy’n gymwys o’r gymuned hon;<br>- Monitro sut mae Cymunedau am Waith yn cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael gwaith drwy newid y ffurflen gofrestru i adlewyrchu cyfrifiad 2011 a monitro hyn drwy adroddiadau cynnydd bob chwarter. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cymunedau<br><br>Is-adran Cyflogadwyedd a Chyllid yr UE | Amcan Ffyniant i Bawb (Amcan FfiB) 1<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 3<br><br>Ffyniant i Bawb - Maes Blaenoriaeth - Sgiliau a Chyflogadwyedd |
| **2. Sicrhau bod y ‘Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd’ newydd yn ystyried anghenion penodol Sipsiwn, Roma a Theithwyr i helpu aelodau'r cymunedau i gael gwaith a chadw swydd.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Cyhoeddi'r Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd yn ystod tymor yr Hydref (2017);<br>- Ymrwymo i ymgynghori â grŵp cyfeirio’r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gynigion polisi y bydd disgwyl iddynt effeithio’n uniongyrchol ar y cymunedau hyn. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cyflogadwyedd a Chyllid yr UE | Amcan FfiB 1<br><br>Amcan CCS 1; 3 |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Hyrwyddo cynhwysiant ariannol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr er mwyn lleihau tlodi, lliniaru ar effeithiau tlodi a gwella amodau byw y rheini ar incwm isel. Yn benodol, ystyried y gefnogaeth y mae ei angen ar unigolion a fydd angen defnyddio'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol 'llawn' sy'n cael ei ehangu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar draws Cymru, rhwng mis Ebrill 2017 a mis Gorffennaf 2018.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>- Monitro'r gwaith o ehangu'r gwasanaeth 'llawn' yn ystod 2017/18 a nodi rhwystrau i Sipsiwn, Roma a Theithwyr;<br>- Codi ymwybyddiaeth am y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Cyflenwi i sicrhau bod y cymunedau hyn yn gallu manteisio ar Undebau Credyd, y Gronfa Cymorth Dewisol, cyngor am ddyledion ac arweiniad ariannol a gwasanaethau eraill yn ystod 2018;<br>- Gweithio gyda rheolwyr safleoedd awdurdodau lleol drwy'r Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Cymru gyfan i sicrhau bod gwybodaeth am rwystrau ac atebion yn cael ei rhannu. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Is-adran Cymunedau | Amcan FfiB 1; 9<br><br>Amcan CCS 2; 7 |
| **4. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd am brentisiaethau ymysg cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn iddynt gael rhagor o gyfleoedd gwaith a dysgu.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>- Penodi hyrwyddwr cydraddoldeb i gefnogi'r cam gweithredu hwn, a fydd yn cael ei gynnal gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Swydd am amser cyfyngedig tan fis Mai 2018;<br>- Gweithio gyda darparwyr a Sipsiwn, Roma a Theithwyr i wella mynediad at brentisiaethau - erbyn mis Mai 2018;<br>- Datblygu rhagor o ddealltwriaeth ar draws y rhwydwaith darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith o'r rhwystrau sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy | Llywodraeth Cymru - Yr Is-Adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau | Amcan FfiB 1; 8<br><br>Amcan CCS 3; 5 |

| | | |
|---|---|---|
| gyfarfodydd Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru a chreu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth;<br>- Codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Prentisiaethau o fewn grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy ymgysylltu â hyrwyddwyr cymunedol y Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, y gwasanaeth Teithio Ymlaen a mudiadau cymorth eraill yn y gymuned. | | |
| **5. Hyrwyddo Llywodraeth Cymru fel man i Sipsiwn, Roma a Theithwyr weithio. Mae amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-20 yn gosod nod i'r sefydliad o fod yn batrwm o amrywiaeth a chynhwysiant erbyn 2020.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gwella'r rhaglen allgymorth a lleoliadau presennol i ehangu apêl Llywodraeth Cymru fel cyflogwr, gan ddangos rhinweddau tegwch, bod yn agored a thryloyw i roi cyfle i gynifer â phosibl o bobl wneud cais;<br>- Sicrhau bod y rhaglen allgymorth yn cynnwys ymgysylltu â sefydliadau sy'n cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod y cymunedau hyn yn cael y cyfle i ymgeisio. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Adnoddau Dynol - Gwasanaethau Arbenigol | Amcan FfiB 8<br><br>Amcan CCS 3; 8 |

| **Amcan 8**<br><br>**Adeiladu pontydd a dealltwriaeth rhwng Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac asiantaethau gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol** | | |
|---|---|---|
| **Camau gweithredu** | **Sefydliad** | **Cysylltiad ag amcanion** |
| **1. Archwilio ffyrdd o wella'r berthynas rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod anghenion a hawliau'r cymunedau hyn yn cael eu deall.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Ystyried ffyrdd o wella'r berthynas hon drwy drafod â phartneriaid yn y gwasanaethau cymdeithasol ac ymgynghori â Grŵp Cyfeirio'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod 2017-18. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Galluogi Pobl<br><br>CLILC<br><br>Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan | Amcan Ffyniant i Bawb (Amcan FfiB) 5<br><br>Amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol (amcan CCS) 1; 4; 6<br><br>Ffyniant i Bawb - Maes Blaenoriaeth - Gofal Cymdeithasol |
| **2. Cefnogi'r gwaith o recriwtio cronfa ehangach o ofalwyr maeth o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod plant bregus o'r cymunedau hyn yn gallu cynnal eu ffordd ddiwylliannol o fyw.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Gweithio gyda Grŵp Llywio Strategol y fframwaith Maethu Cenedlaethol i ystyried ffyrdd o ddatblygu cronfa o ofalwyr maeth o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr - yn ystod 2017-18.<br>- Ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddeall eu barn am sut y gellid cyflawni hyn - yn ystod 2017-18. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Galluogi Pobl<br><br>Grŵp Llywio Strategol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol<br><br>Penaethiaid | Amcan FfiB 7; 10<br><br>Amcan CCS 1; 5; 6 |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwasanaethau Plant Cymru gyfan | |
| **3. Sicrhau bod gan asiantaethau cyfiawnder troseddol fwy o ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr.**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>- Ymgysylltu ag aelodau'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol ledled Cymru yn ystod 2017 i ganfod unrhyw broblemau diwylliannol a wynebir yn y lleoliadau hyn ac â rhanddeiliaid cysylltiedig eraill.<br>- Ymgysylltu â rhanddeiliaid y mae eu gwaith yn effeithio ar y system cyfiawnder troseddol i bennu ymyriadau addas ac atebion posibl i liniaru ar broblemau sy'n cael eu pennu. | Llywodraeth Cymru - Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcan FfiB 10<br><br>Amcan CCS 1; 6 |

**Atodiad A**

# HOLIADUR YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

## Ffyniant i Bawb: Sipsiwn, Roma a Theithwr

Rydym eisiau gwybod beth yw eich barn am y cynigion yn y drafft ar gyfer Ffyniant i Bawb: Sipsiwn, Roma a Theithwr

Cyflwynwch eich sylwadau os gwelwch yn dda erbyn 21 Rhagfyr 2017.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch:

EqualityandProsperityMailbox@gov.wales

| Diogelu Data |
|---|
| Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'r manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

| Cyfrinachedd |
|---|
| Mae ymatebion i ymgyngoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br><br>**Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad ymddangos mewn unrhyw ddogfennau** |

| |
|---|
| **y byddwn yn eu llunio, nodwch hynny yma** ☐<br><br>**Os nad ydych am i'ch ymateb ymddangos mewn unrhyw ddogfen y byddwn yn ei llunio, nodwch hynny yma** ☐ |

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

| **Cynllun Cyflenwi – Ffyniant i Bawb: Sipsiwn, Roma a Theithwr (Ymgynghoriad)** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | | |
| **Enw** | | |
| **Sefydliad** | | |
| **Cyfeiriad** | | |
| **Cyfeiriad e-bost** | | |
| **Ffôn** | | |
| **Math** *(dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda)* | Busnesau | ☐ |
| | Awdurdod Lleol | ☐ |
| | Bwrdd Iechyd Lleol | ☐ |
| | Awdurdod Heddlu | ☐ |
| | Cyrff Proffesiynol | ☐ |
| | Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cydweithfeydd, mentrau, crefyddol, mudiadau dielw) | ☐ |
| | Ymatebydd unigol | ☐ |
| | Arall (grwpiau eraill heb eu rhestru uchod) | ☐ |

| C1 | Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu yn 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr'? Esboniwch y rhesymau dros eich ateb yn y blwch sylwadau eraill. | X |
|---|---|---|
| | **Cytuno** | |
| | **Cytuno gan mwyaf** | |
| | **Anghytuno** | |

**Sylwadau eraill**

| C2 | Ein nod yw y bydd pawb yn cael y cyfle i gyflawni eu llawn botensial a byw bywyd iach, llewyrchus a boddhaus, gan eu galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Sut gallwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? |
|---|---|

| C3 | Rydyn ni am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Sut gallwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **C4** | Rydyn ni am i Gymru gael sector gofal cymdeithasol cynaliadwy ac o safon, gyda gwasanaethau ataliol ac integredig yn y gymuned, sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol. Sut gallwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? |
| | |

| | |
|---|---|
| **C5** | Rydyn ni am sicrhau nad yw problemau iechyd meddwl yn rhwystro pobl i gyflawni eu potensial ym mhob agwedd ar eu bywyd. Sut gallwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? |
| | |

| | |
|---|---|
| **C6** | Dylai pawb fod â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd a'r cyfle i ddatblygu sgiliau newydd drwy gydol eu bywyd gwaith. Sut gallwn ni gyflawni hyn yn well ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr? |
| | |

| C7 | Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod cynifer o Sipsiwn, Roma a Theithwyr â phosibl yn cael gwybod am y cynigion yn 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' ac yn gallu deall y ddogfen. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o gyfleu'r ddogfen a gyhoeddwyd i aelodau'r cymunedau hyn, ac a oes angen dulliau cyfathrebu gwahanol ar gyfer pob cymuned? | **X** |
|---|---|---|
| | **Cyfryngau cymdeithasol** | |
| | **E-bost** | |
| | **Ffôn** | |
| | **Gwefannau** | |
| | **Drwy fudiadau gwirfoddol** | |
| | **Post** | |
| **Nodwch pa gyfryngau/gwefannau cymdeithasol** | | |
| | | |

| C8 | Allwch chi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n deillio o'r ddogfen hon (cadarnhaol neu negyddol) ar Hawliau Plant, Cydraddoldeb neu'r iaith Gymraeg? I helpu gyda hyn, bydd angen i chi gyfeirio at yr asesiadau o'r effaith ar Hawliau Plant a Chydraddoldeb sy'n dod gyda'r holiadur hwn.<br><br>Esboniwch eich barn a rhowch unrhyw awgrymiadau ynghylch sut gellid adolygu'r ddogfen er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|
| **Sylwadau eraill** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **C9** | Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, dyma gyfle i chi eu nodi isod. |
| **Sylwadau eraill** | |
| | |

**Sut mae ymateb**

Anfonwch eich sylwadau erbyn 21 Rhagfyr 2017 gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

| **E-bost** | **Post** |
|---|---|
| Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:<br>EqualityandProsperityMailbox@gov.wales<br><br>[Cofiwch gynnwys **Ymateb i'r ymgynghoriad 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwr'** yn y llinell pwnc] | Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i:<br>Ymgynghoriad ar Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwr<br>Y Tîm Cydraddoldeb<br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br>Llywodraeth Cymru<br>Swyddfa Merthyr Tudful<br>Rhydycar<br>Merthyr Tudful CF48 1UZ |

| **Gwybodaeth ychwanegol** |
|---|
| Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn,<br>E-bost: EqualityandProsperityMailbox@gov.wales |